**HYSBYSEB YR RSPCA ( Y Gath)**

- Y mae un brif dasg yma: tasg lafar sef cyflwyno rhaglen radio yn mynegi barn am yr hysbyseb.
- Y mae nifer o dasgau (10 i gyd) sydd yn arwain at y brif dasg (Rhaglen Radio) Mae rhai ohonynt yn fwy heriol na'i gilydd a gall yr athro ddewis a dethol ohonynt a'u teilwra i ateb gofynion ei ddigyblion. Yr athro sydd â'r adnabyddiaeth orau o'i ddosbarth ac ef a ŵyr pa dasgau fyddai o fudd/ yn addas ac o gymorth cyn wynebu'r brif dasg.
- Mae digon o dasgau yma ar gyfer 2/3 gwers.

**TASGAU 1 a 2**

Mae'r ddwy dasg gyntaf yn dasgau sydd yn braenaru'r tir ac yn paratoi'r dysgwyr at bwrpas y testun sef perswâd. Fe dreialwyd y ddwy dasg a chyflwynwyd y ddwy mewn un wers a gwelwyd bod y ddwy yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn rhoi gogwydd gwahanol ar berswâd. Bu'n dra llwyddiannus hefyd oherwydd bod sgiliau perswâd yn newydd i'r dosbarth.

Mae'r ddwy dasg hon hefyd yn dasgau y gellid myfyrio arnynt wedi cwblhau'r wers neu'r uned gyfan e.e. dwyn i gof beth a ddysgwyd wrth gloi'r wers. Dyma'r math o gwestiynau myfyrio a ddefnyddiwyd wrth dreialu:

- Petaech yn ail gyflwyno'r dasg lafar a fyddech erbyn hyn yn rhoi gogwydd gwahanol ar y perswadio e.e. rhoi mwy o bwys ar waith yr RSPCA neu yn rhoi mwy o bwys ar yr hyn all ddigwydd i anifail sydd yn mynd ar goll neu wedi'i adael ar ei ben ei hun.
- Fyddech chi fwy ymwybodol wrth ddefnyddio iaith? Pa fath o iaith – berfau efallai. Pa fath o ferfau? Beth am ansoddeiriau? Sut fyddech yn defnyddio'r ansoddeiriau hyn, eu rhoi o flaen yr enw efallai? Pam hynny?

**TASGAU 3- 9**

Tasgau sydd yn ymateb yn benodol i'r hysbyseb sydd yma. Does dim dilyniant a strwythur arbennig i'r tasgau - edrych ar nodweddion gwahanol yn y testun a wneir. Y mae modd dewis a dethol eto yma a gweld pa dasgau fyddai'n gweithio orau gyda dosbarthiadau arbennig gallu cymysg / wedi'u setio / pa dasgau y mae'r athro'n teimlo y byddai ei ddosbarth ef ei hun yn elwa fwyaf ohonynt.

**Y BRIF DASG – RHAGLEN RADIO**

Dylai'r disgyblion fod yn gyfarwydd â chymryd rhan mewn rhaglen radio. Os nad ydynt – gellir cychwyn gyda'r dasg hon!
Un awgrym wrth eu paratoi yw torri'r wers yn gamau bach e.e.

- gwrando ar ambell grŵp yn cyflwyno a grŵp eraill yn eu hasesu
- mewn dosbarth o allu cymysg gellir pennu agweddau i grwpiau eu trafod e.e. byddai grŵp o allu uwch efallai yn canolbwyntio ar rif 6 (trafod ymadroddion). Os mai prif faes ffocws y wers oedd trafod ansoddeiriau – gellid gofyn i bawb drafod hynny a bod y dosbarth yn asesu ei gilydd.

- Cyn cychwyn y dasg – mae gofyn i bob aelod o'r dosbarth ddewis cymeriad y gallent chwarae rôl er mwyn ffonio'r rhaglen (e.e. gweithiwr i'r RSPCA / hen ŵr / gwraig sydd yn byw mewn cartref henoed / gyrrwr lori sydd yn gwrando ar y radio ac am gyfrannu at y drafodaeth / llygad dyst i anifail sydd wedi'i gamdrin)
- Bydd y galwadau ffôn yn digwydd wrth wrando ac asesu grŵp. Yr athro fydd yn rhoi cyfarwyddyd / y 'ciw' i'r cyflwynydd bod galwad ffôn ac yn dewis disgybl i alw'r rhaglen. Gwelwyd bod hyn yn ddull effeithiol o feithrin sgiliau gwrando'r disgyblion.

| **PRIF DASG – TAFLEN DISGYBL.** |
|---|

| |
|---|
| **Gwaith grŵp** : Creu rhaglen radio. Teitl y rhaglen: *Gwrandewch arnom ni.* |

| |
|---|
| **TESTUN**: Y mae hysbyseb gan yr RSPCA wedi cyrraedd cartrefi pobl yn eich ardal chi. Y mae un gŵyn wedi dod i'ch sylw sef bod yr hysbyseb yn rhy fyr a ffwr-bwt.<br>Gan mai person lleol sydd wedi cynllunio'r hysbyseb rydych am achub ei gam ac egluro i'r gynulleidfa paham fod yr hysbyseb yn un effeithiol. |
| **CYFRANNWYR A'U GWAITH**<br>**Cyflwynydd**: Cyflwyno'r pwnc / siaradwyr / cyfeiriad e-bost / trydar / ffôn.<br>Arwain y drafodaeth / cwestiynu.<br>Delio efo galwadau ffôn.<br>**Siaradwyr** : Siarad yn estynedig. Cofio cyflwyno dadleuon yn glir / cyfiawnhau barn / cyfeirio at y testun. |

| **TREFN Y RHAGLEN** | **WNAETHON NI?**<br>**Rhowch √ neu X a sylwadau byr.** |
|---|---|
| 1,Cyflwyno'r rhaglen / gwesteion / testun / ffyrdd o gysylltu. | |
| 2. Sôn am y llun / geiriad y llun? Sut mae'n gwneud i'r darllenydd deimlo? Pwy sy'n siarad? Pam cwestiwn yn hytrach na gosodiad? | |
| 3. Clyfrwch y 'geiriau gwenu a'r geiriau sy'n brathu'. | |
| 4. Cydbwysedd rhwng ffaith a barn . Oes yma fynegi barn? Ydyw hynny yn llwyddo i bigo cydwybod? | |
| 5. Edrych ar iaith e.e. ansoddeiriau | |
| 6. Trafod ymadroddion fel *llwyr ddibynnol / ar goll / tawelwch meddwl.* | |
| 7. Oes rhywbeth ar goll yn yr hysbyseb? Ystyriwch yn ofalus! (Ydi'r awdur wedi anghofio rhywbeth pwysig? Os ydyw, beth tybed?) | |
| 8. Ar gyfer pwy mae'r hysbyseb? Ydyw'n llwyddo i berswadio? | |
| 9. Ydy'r hysbyseb yn rhy fyr? | |

| |
|---|
| **ASESU'R GRŴP**:<br>Cawsom hwyl ar…<br><br><br>Y tro nesaf mae angen i ni… |

| **HUNAN ASESU**.<br><br>Cefais hwyl ar…<br><br><br>Y tro nesaf rhaid i mi… |
|---|

| **TASGAU LLAFAR** |
|---|

| **TASG 1 : NAIN A'R GATH** |
|---|

**Cam 1: Tasg Her Dau Funud**
Athro yn cyflwyno'r dasg- gwaith pâr / chwarae rôl (nain ac ŵyr / wyres)
Gosod y sefyllfa ar sleid pwynt pwer (Gweler atodiad Tasg 1 / 2 Atodiad 1)
Gan mai tasg her dau funud yw hon – angen cloc ar y Bwrdd Gwyn i amseru a chanu pan ddaw'r amser i ben.

***Sefyllfa**: Mae gennych dasg go anodd. Y mae nain wedi syrthio a thorri ei choes a'i chlun. Fedr hi ddim byw ar ei phen ei hun ddim mwy. Ar ôl trafod efo hi y mae wedi dweud ei bod am ddod i fyw atoch chi. Bydd ei thŷ yn mynd ar werth ond mae un peth yn ei phoeni'n arw - Modlen ei chath. Na, nid yw Modlen yn cael dod i fyw gyda chi. Nid yw hyn yn plesio nain.*
*Eich tasg chi yw ceisio perswadio nain i roi Modlen yng ngofal yr RSPCA. Bydd gennych ddau funud union i wneud hyn.*

**Cam 2: Asesu'r parau**
Dewis dau bâr y gall y ddosbarth wrando arnynt.
Tasg i'r disgyblion / aseswyr:

- *Ystyriwch pwy oedd yn perswadio'n effeithiol*
- *Bydd angen i chi gyflwyno rhesymau pendant i gyfiawnhau eich barn*
- *Pa eiriau / dywediadau effeithiol a ddefnyddiwyd?*

**Cam 3: Derbyn asesiadau gan aelodau'r dosbarth**
- Athro i gofnodi'r canfyddiadau
- Wrth gofnodi yr athro i gwestiynu e.e. Pa eiriau effeithiol a ddefnyddiwyd gan . . . Pam fod y gair hwn yn effeithiol? Beth oedd yn arbennig amdano? Sut fath o air ydi o?

| TASG 2: GWEITHIO I'R RSPCA |
|---|

**Cam 1: Her mewn munud - gwaith grŵp / pâr – chwarae rôl**

- Yr athro yma hefyd i chwarae rôl. Gellid gweithio ar fformat 'Dragon's Den' yr athro yw'r cyflogwr neu gall fod yn Rheolwr / Gyfarwyddwr yr RSPCA. Mae'r disgyblion yn 'gweithio' iddo – ac maent angen yr arian yn ddybryd.
- Cyflwyno llun y gath a themplad ar gyfer dau baragraff (gweler Tasg 2 atodiad 3) Tasg y disgyblion yw egluro beth fyddai prif fyrdwn dau baragraff eu hysbyseb.
  (Angen herio'r disgyblion yma ar eu sgiliau perswadio - Ydych chi'n ddigon abl i wneud y dasg hon tybed? / Tydw i ddim yn meddwl y gallwch wneud y dasg hon … ond cawn weld os oes gennych feddwl busnes a sgiliau perswadio)
- Gosod y sefyllfa ar sleid Powerpoint (gweler Tasg 1 / 2 atodiad 2) Gan mai tasg her mewn munud yw hon – angen cloc ar y Bwrdd Gwyn i amseru a chanu pan ddaw'r amser i ben

| ***Sefyllfa :*** |
|---|
| *Ydych chi'n gallu perswadio? Mae'r RSPCA angen arian. Y chi yw eu swyddogion marchnata. Y mae angen i chi gynllunio hysbyseb ar eu rhan a pherswadio darllenwyr i roi arian i'r RSPCA.* |

***Edrychwch ar y llun.***

- ***Pa fath o wybodaeth fyddech chi'n ei rhoi yn y paragraff cyntaf ?***
- ***Pa fath o wybodaeth fyddech chi'n ei rhoi yn yr ail baragraff?***

*Ydy, mae arian yn brin. Mi fedrwch golli eich gwaith mor hawdd â dim ac mae'n rhaid i chi gystadlu yn erbyn eich cyd-weithwyr.*

*Un munud sydd gennych i wneud y dasg hon.*

**Cam 2:**

Yr athro i wrando ar rai o'r cyfraniadau.
Cwestiynu – pam eich bod wedi cynnwys y wybodaeth yma / disgyblion i asesu cyfraniadau ei gilydd. Yna cyflwyno'r hysbyseb.
Bydd gan yr athro adnabyddiaeth dda erbyn hyn o'r hyn y dylid canolbwyntio arno i fireinio sgiliau perswadio'r disgyblion. Gall ddewis felly o dasgau 3-9 .

**TASGAU DARLLEN**


**Dyma enghreifftiau o dagau posibl.**

**TASG 3** (dehongli) **Trafod cynnwys cyffredinol yr hysbyseb**

- Athro i gyflwyno'r hysbyseb (gweler Tasg 3 atodiad 4) Mae dewis – gall ddarllen yr hysbyseb gyda'r disgyblion neu ofyn i'r disgyblion ei ddarllen yn eu grwpiau.

- Cwestiynu –
- Beth sydd yn gwneud yr hysbyseb yma yn un effeithiol?
- Beth fedrwch ei ddweud am gynnwys/ pwrpas i) y llun ii) y paragraff cyntaf iii) yr ail baragraff. Clustnodi amser penodol i i)-iii)
- Disgyblion yn cofnodi'r canfyddiadau ar bostiau bach.
- Yna pob grŵp i flaenoriaethu pa adran sydd yn perswadio orau. Gosod eu post-it ar y triongl blaenoriaethu.
- Grwpiau i adrodd yn ôl a chyfiawnhau eu sylwadau.

**TAFLEN DISGYBL**



| **TASG 4** (dehongli) **Trafod y llun a'r geiriau gyda'r llun.** |
|---|

**Cam 1 :** Yn eu grwpiau y disgyblion i gofnodi 3 phwynt yn egluro pam y dewiswyd y llun hwn/ a yw'n llun effeithiol. Yna, cofnodi 3 phwynt am y geiriau sydd gyda'r llun.

| **Pam fod yr RSPCA wedi dewis y llun hwn?** |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |
| **Beth allwch ei ddweud am y capsiwn / geiriau ?** |
| 4. |
| 5. |
| 6. |

Os am hwb ar ganol tasg gellir holi:

- Ydy llun y gath yn arwyddocaol?-Pam mai llun cath fach yn hytrach na chath flewog flêr a ddewiswyd?
- A yw'n ymbilio – fel petae'n gweddio? Ai dyna pam mae'n edrych i fyny? Ar bwy mae'n edrych?
- Ai'r gath sy'n gofyn y cwestiwn ?
- Ydy'r llun heb y cwestiwn yn effeithiol? Sut fath o gwestiwn ydi o?
- Ydi'r cwestiwn yn effeithiol heb y llun?
- Pam fod print y geiriau yn wyn? Pam fod cefndir y geiriau'n ddu?
- Sut mae'r llun yn cyd-fynd â'r cwestiwn ?
- Oes yma gyferbynnu ? ( arna 'i' & 'chi')

**CAM 2**:

- Pob grŵp i ddewis a chofnodi 3 pheth effeithol am y llun ar bostiau bach a'u gosod ar y triongl blaenoriaethu.
- Bydd angen iddynt roi rhesymau dros eu dewis.

**(TASG LLAI HERIOL)**

| **TASG 5: (myfyrio) Tasg chwarae rôl. Pa gapsiwn fyddai orau yma?** |
|---|

**Cam 1** :

- Rydych yn gweithio i'r RSPCA . Y maent wedi cyflwyno'r llun hwn i chi. (Gw. isod) Eich tasg yw perswadio pobl i roi pres/arian i'r RSPCA. Y mae angen i chi roi capsiwn wrth ymyl llun y gath.
- Meddyliwch am 3 chwestiwn a 3 gosodiad i fynd gyda'r llun hwn. Tri munud sydd gennych chi. Mae eich amser yn cychwyn rŵan. (Llun cloc ar y Bwrdd Gwyn – mae cloch yn canu ar ddiwedd y tri munud.)

Gellir rhoi mwy o ganllawiau e.e.


- Meddyliwch am gwestiwn cyffredinol
- Meddyliwch am gwestiwn - a'r tro hwn y gath sy'n siarad. Beth fyddai hi'n ddweud tybed?

**TAFLEN DISGYBL**

| CWESTIWN | GOSODIAD |
|---|---|
| 1. | 1. |
| 2. | 2. |
| 3. | 3. |

**Cam 2 :**
i) Adrodd yn ôl / cofnodi'r gosodiadau gorau
ii) Trafod beth fyddai orau – cwestiwn neu osodiad ? Pam?
iii) A gafwyd cwestiynau yn y person cyntaf ? Trafod pam fod cyflwyno cwestiynau yn y person cyntaf yn effeithiol mewn hysbyseb sy'n perswadio?


**Cam 3**: Edrych ar yr hysbyseb ei hun Beth yw barn y disgyblion am y cwestiwn hwn? Ydyw'n taro deuddeg? Pam?


CWESTIWN neu OSODIAD?
Beth fyddai orau yma?

| **TASG 6:(**dehongli a chysylltu) **Canfod geiriau clên a chaled/ geiriau brathu a gwenu.** |
|---|

Disgyblion i chwilio a chofnodi geiriau/ ymadroddion clên a chaled / brathu a gwenu / cadarnhaol a negyddol (*purr and snarl words*) a'u gosod yn y colofnau priodol (gweler yr enghraifft isod)

Gellir defnyddio diagram venn




| | **Geiriau clên** | **Geiriau caled** |
|---|---|---|
| **Brawddeg 1** | **anwes/ yn annwyl** | |
| **Brawddeg 2** | anifeilaid **diniwed** | perchnogion **yn marw** |
| | | **heb gynllunio** |
| | | yn mynd **ar goll** |
| **Brawddeg 3** | **sicrhau dyfodol saff** | |
| | ***Cartref am Oes*** | |
| **Brawddeg 4** | **gwneud yn siŵr** | |
| | **cartref newydd** | **yn ei golled** |
| **Brawddeg 5** | **tawelwch meddwl** | |
| **Brawddeg 6** | | |
| **NIFER Y GEIRIAU CLÊN :** **NIFER Y GEIRIAU CALED :** | | |

**Cwestiynu pellach brawddeg 6** :

- Ym mha golofn y byddwch yn gosod “llwyr dibynnol” a “chyfraniadau ariannol”?
- A oes angen colofn ‘niwtral’?
- Beth sy’n gwneud hysbyseb effeithiol? Yr un gyda mwy o eiriau clên ynteu eiriau caled? Pam?

**TAFLEN DISGYBL**

| | GEIRIAU CLÊN | GEIRIAU CALED |
|---|---|---|
| **Brawddeg 1** | **anwes/ yn annwyl** | |
| **Brawddeg 2** | | |
| | | |
| | | |
| **Brawddeg 3** | | |
| | | |
| **Brawddeg 4** | | |
| | | |
| **Brawddeg 5** | | |
| **Brawddeg 6** | | |
| **NIFER Y GEIRIAU CLÊN :**<br>**NIFER Y GEIRIAU CALED :** | | |

| **TASG 7: (adalw / dehongi)  Gwahaniaethu rhwng ffaith a barn** |
|---|

- Gall fod yn waith pâr neu grŵp. Y mae nifer o'r gosodiadau yn destun trafod a dadlau ond mae'n ffordd o godi ymwybyddiaeth o beth sy'n ffaith oer a beth sy'n farn (gweler yr enghraifft isod)
- Tasg y disgyblion yw lliwio'r gosodiadau a gyflwynir- pob ffaith yn felyn a barn yn goch. Yna gellir eu holi a oes mwy o eiriau / gymalau / brawddegau melyn a yw'r hysbyseb yn un deg a di-duedd. Beth sydd ei angen fwyaf mewn hysbyseb fel hyn – ffeithiau neu farn neu a oes angen y ddeubeth?

| | **FFAITH** | **BARN** |
|---|---|---|
| Brawddeg 1 | | Mae ein hanifeilaid anwes yn annwyl i ni |
| Brawddeg 2 | | Ond os bydd eu perchnogion yn marw , heb gynllunio beth sy'n mynd i ddigwydd iddyn nhw, bydd yr anifeiliad diniwed ar goll |
| Brawddeg 3 | Gallwch sicrhau dyfodol saff i'ch anifeilaid wrth gofrestru gyda Gwasanaeth *Cartref am Oes* yr RSPCA. | |
| Brawddeg 4 | Byddwch yn gwneud yn siŵr ein bod yn darganfod cartref newydd i anifail yn ei golled. | |
| Brawddeg 5 | Cysylltwch i gofrestru … | Cysylltwch i gofrestru a chael tawelwch meddwl |
| Brawddeg 6 | Mae RSPCA yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau ariannol | |

**TAFLEN DISGYBL**

**FFAITH NEU FARN?**
**Lliwiwch bob ffaith yn felyn a phob barn yn goch.**

BRAWDDEG 1
Mae ein hanifeilaid anwes yn annwyl i ni.

BRAWDDEG 2
Ond os bydd eu perchnogion yn marw heb gynllunio beth sy'n mynd i ddigwydd iddyn nhw, bydd yr anifeilaid diniwed ar goll.

BRAWDDEG 3
Gallwch sicrhau dyfodol saff i'ch anifeilaid wrth gofrestru gyda *Gwasanaeth am oes* yr RSPCA.

BRAWDDEG 4
Byddwch yn gwneud yn siŵr ein bod yn darganfod cartref newydd i anifail yn ei golled.

BRAWDDEG 5
Cysylltwch i gofrestru.

BRAWDDEG 5
Cysylltwch i gofrestru a chael tawelwch meddwl.

BRAWDDEG 6
Mae RSPCA yn llwyr ddibynnol ar gyfraniadau ariannol.

| **TASG 8:** (adalw a dehongli) **Tasg Iaith** |
|---|

- Y mae angen gwybodaeth ramadegol yma i wybod beth yw cwestiwn rhethregol / enw / berf / ansoddair negyddol a chadarnhaol
- Gwaith y disgyblion yw canfod a chofnodi'r ansoddeiriau / berfau gorchmynnol a chwestiwn rhethregol

<u>Gellir trafod y canlynol yn fanylach:</u>

**Ansoddeiriau**: **anifeilaid anwes**. Anifail anwes yn derm am 'pet ; ond mae anwesu yn rhoi mwy o syniad ynglŷn â phwrpas yr anifeilaid i'r henoed – sef rhywbeth fydd yn wrthrych eu cariad a'u sylw. Yn yr un modd mae **annwyl** yn cyfleu'r syniad o rywbeth sydd yn werth y byd, yn agos atoch, yn drysor ac yn cyfleu'r cariad rhwng y perchennog a'r anifail.
**diniwed:** yn pwysleisio nad yw'r anifail wedi gwneud drwg i neb ac yn pwysleisio prif neges yr hysbyseb – na all yr anifail ofalu amdano'i hun a bod angen i rywun gymryd cyfrifoldeb drosto.
**Berfau Gorchmynnol:** pam defnyddio berfau gorchmynnol yma?
**Cwestiwn Rhethregol:** pwy sy'n siarad? Gyda phwy mae'n siarad? Mae yma awgrym bod y gath yn siarad yn benodol gyda rhywun?
ii) Trafod y y frawddeg olaf.
A yw hon yn frawddeg effeithiol? Pam fod y print wedi'i dduo? Pam rhoi'r adferf o flaen y ferf yma – *llwyr ddibynnol* yn hytrach na *dibynnu'n llwyr.*
Ydyw *llwyr ddibynnol* yn gryfach ac yn pigo cydwybod yn well?
(Yn y cyd-destun hwn trafod mai'r patrwm mewn Cymraeg a Ffrangeg yw enw + ans. Saesneg yn wahanol – ans + enw. Eto fe roddir ansoddeiriau o flaen yr enw yn fwriadol ar brydiau e.e. dychrynllyd ddydd/ tywyll nos / dawel nos, hen dŷ Pam hynny?)

**TAFLEN DISGYBL**

| Cwestiwn Rhethregol | Berfau | Enwau | Ansoddeiriau Cadarnhaol |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

| **TASG 9:** (tasg adalw a dehongli) Darllenwch y darn darllen yn ofalus |
|---|

**Cam 1:**
Athro i holi a oes geiriau yn y darn sydd yn cyfarwyddo'r darllenwr ac yn ei roi ar ben y ffordd os yw am sicrhau dyfodol saff i'w hanifail anwes.

TASG: Gwnewch restr o bethau sydd yn rhaid eu gwneud i sicrhau dyfodol saff i'ch anifail anwes.
Mae'r cyntaf wedi'i wneud i chi:

(Atebion 1. Cynllunio 2. Sicrhau. 3. Cofrestru 4. Cysylltu 5. Gwneud yn siŵr)

**Cam 2:**
Athro i holi pa fath o eiriau ydynt ac a ellir eu trosi yn ferfau gorchmynnol (geiriau "–wch").

**TAFLEN DISGYBL**

| Gwnewch restr o bethau sydd yn rhaid eu gwneud i sicrhau dyfodol saff / diogel i'ch anifail anwes. | Ewch ati i drosi'r geiriau hyn yn ferfau gorchmynnol (geiriau "-wch") |
|---|---|
| | |
| 1. Cynllunio | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| 5. | |

| **TASG 10:** (datblygu a dehongli) |
|---|

Rhoi'r chwyddwydr ar ymadroddion penodol.
Yr athro i gwestiynu – gweler i) a ii) isod.
Beth oedd bwriad yr awdur wrth ddefnyddio'r canlynol 'ar goll' a 'tawelwch meddwl' yn y darn darllen hwn.

i) "ar goll" - Ystyr llythrennol a throsiadol yma – "ar goll" yn llythrennol ac yn ddiymgeledd yn emosiynol. Efallai bod yr anifail wedi mynd ar grwydr am nad yw'r perchennog adref i edrych ar ei ôl neu gall olygu ei fod ar goll yn emosiynol am nad yw'n deall beth sydd wedi digwydd iddo ac i'w berchennog. Mae ei fywyd ar chwâl. Idiom sydd yma.

ii) tawelwch meddwl – idiom arall. Holi sut mae'r disgybl yn teimlo mae'n cael tawelwch meddwl. Ydyn nhw wedi cael profiad felly e.e. wrth helpu rhywun / gwneud ffafr â rhywun / gwybod nad ydynt wedi cega ar berson arbennig pan fo hwnnw wedi cyrraedd pen ei

dennyn . . . Sut mae darllenydd y darn hwn yn mynd i gael ‘tawelwch meddwl’? Wrth gofrestru. Pam fod angen cofrestru? Er mwyn sicrhau bod yr anifail yn ddiogel a pheidio â phoeni amdano am ei fod mewn dwylo diogel?

**ii)** **Cam 2** Y disgybl i ateb y cwestiynau – (gweler Tasg 10 atodiad 5)

